# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Menna Trenholme |
| **Swyddog perthnasol:** | Ian Jones, Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 20 Chwefror 2024 |

**1. Penderfyniad a Geisir**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

**3.1** Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet dros Adran Cefnogaeth Gorfforaethol. Bydd yr adroddiad yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd hyd yma yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

**3.2** Hoffwn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod o Dîm Rheoli'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol ar yr 17 o Ionawr, 2024.

**3.3** Rwyf yn fodlon bod y prosiectau sy'n cael eu harwain gan yr Adran, ynghyd a pherfformiad dydd i ddydd, yn cael eu cynnal o fewn y gyllideb. Dymunaf nodi fy ngwerthfawrogiad o waith holl swyddogion yr Adran a chydnabod y cyfraniad allweddol a wneir ganddynt i gefnogi gwaith y Cyngor.

**4. Prosiectau Cynllun y Cyngor Gwynedd 2023-2028 (Meysydd Blaenoriaeth)**

Mae'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn arwain ar 6 prosiect o fewn gwahanol feysydd blaenoriaeth Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028. Rwy'n crynhoi'r hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma fel a ganlyn;

**4.1 Cadw'r Budd yn Lleol**

**4.1.1** Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gaffael, neu brynu, nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosib yn aros yn lleol.

**4.1.2** Mae hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o drefniadau gwerth cymdeithasol wedi digwydd yn ystod cyfnod peilot y drefn. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i godi ymwybyddiaeth swyddogion ehangach sydd yn caffael maes o law.

**4.1.3** Cynhelir gweithdai i fusnesau lleol (o drefniadau gwerth cymdeithasol). Mae gwaith yn cael ei wneud yn barhaus i geisio tywys busnesau lleol drwy'r drefn fel mae cytundeb penodol yn codi a manteisir ar gefnogaeth cenedlaethol sydd ar gael yn ogystal. Mae cyfnod tendro cytundeb bwyd ar agor ar hyn o bryd, o mis Tachwedd,2023 i Ebrill, 2024.

**4.1.4** Mae canllawiau mewn lle ar gyfer y trefniadau newydd sydd wedi eu datblygu fel rhan o'r peilot. Bydd angen trefn casglu data yn dilyn terfynu'r cytundeb i ddefnyddio porth y cwmni ymgynghorol Social Value Portal.

**4.1.5** Mae gwaith ar y gweill i adolygu polisïau caffael i gynnwys y mesurau cymdeithasol ond mae hefyd angen adlewyrchu'r newidiadau ehangach sydd i'w ddod gyda'r gyfres o reoliadau cenedlaethol newydd yn ystod y flwyddyn. Mae addasiadau i'r Polisi Caffael i'w cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r gwaith paratoi ar gyfer y newidiadau yn y rheoliadau wedi cychwyn. Bydd y datblygiadau hyn yn cael ei rhannu gyda'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol ac mae yna hefyd sesiwn codi ymwybyddiaeth wedi ei chynnal ar gyfer y timau categori a chaffael, arweinyddion maes a YGC.

**4.1.6** Yn dilyn cyfarfod gyda holl dimau rheolaeth categori a chaffael cytunwyd i gyfarfodydd herio perfformiad ychwanegol ar gyfer adrodd ar ganlyniadau adolygu cytundebau. Bydd dau gyfarfod yn cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn.

**4.2 Merched Mewn Arweinyddiaeth**

**4.2.1** Amcan y prosiect hwn yw hybu'r nifer o ferched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor trwy adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith er mwyn denu mwy o ferched i ymgymryd â'r gwaith i'r dyfodol.

**4.2.2** Mae'r bedwaredd gyfres o'r Rhaglen Ddatblygol wedi bod yn rhedeg tros y ddau fis ddiwethaf a bellach wedi dirwyn i ben. Mae tros 40 o ferched bellach wedi dilyn y Rhaglen, a dengys gwaith dadansoddol ar y 3 cohort cyntaf fod 33% o'r mynychwyr wedi derbyn swydd uwch ers cwblhau'r Rhaglen.

**4.2.3** Mae cyfres arall o 'Sgyrsiau dros Baned' wedi dod i derfyn. Cafwyd sgyrsiau difyr iawn yn y gyfres yma eto i gynnwys Ffion Johnstone ac Elin Gwynedd o'r Bwrdd Iechyd, a Sian Pugh sy'n Bennaeth Cynorthwyol newydd o fewn y Cyngor. Roedd cynulleidfaoedd eang a thra gwahanol i'r sesiynau. Tra roedd tipyn o Reolwyr a Phenaethiaid Cynorthwyol wedi ymuno ar gyfer y sgwrs hefo Ffion ac Elin, roedd nifer o swyddogion ifanc a brwdfrydig wedi ymuno i glywed sgwrs Sian. Dengys data fod rhyw 60 o unigolion wedi gwylio'r sesiynau hyn yn ddiweddarach trwy ddefnyddio linc ar y mewnrwyd.

**4.2.4** Mae trefniadau yn mynd rhagddo ar gyfer digwyddiad "Trwy Lygaid Merch" i gael ei chynnal ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Ferch ar yr 8fed o Fawrth, 2024. Bydd hwn yn ddigwyddiad i Reolwyr ac Arweinyddion Timau, boed yn ddynion neu ferched a fydd hefyd yn clymu â'r rhaglen llesiant staff. Y nôd yw codi ymwybyddiaeth o'r heriau cydnabyddedig y mae merched yn eu hwynebu yn y gweithle, boed hynny yn drefniadau ymarferol gofalu a chydbwysedd bywyd a gwaith, yn ddiffyg hyder, neu yn gyflyrau iechyd megis y menopos.

**4.2.5** Cytunodd y bwrdd prosiect i gynnal peilot yn ymwneud ac osgoi rhagfarn diarwybod a sicrhau cydraddoldeb yn y broses benodi, sef cyflwyno trefn ffurflenni cais dienw. Bydd y peilot yn cael ei gynnal gyda swyddi lefel Arweinyddion Timau ac uwch ar draws y sefydliad. Mae addasiadau wedi bod yn cael eu gwneud gan y Gwasanaeth TG i'r system recriwtio a phenodi

yn hunan wasanaeth staff i alluogi cynnal y peilot ffurflenni cais di-enw. Golyga'r addasiadau y gall y peilot ddigwydd yn esmwyth ac na fydd gwaith ychwanegol yn codi i Reolwyr yn unigol nac i'r Gwasanaeth Cefnogol. Mae neges wedi ei rhannu a phob Pennaeth Adran i'w hysbysu am y peilot. Mae ffurflen casglu adborth hefyd wedi ei llunio fel y gellir casglu adborth meintiol ac ansoddol am effaith y peilot.

**4.2.6** Mae gwaith pellach wedi digwydd, ac yn parhau i ddigwydd ar yr ystadegau, y bwriad yw y gall y data hwn lywio gwaith y prosiect hwn wrth symud ymlaen. Bydd y data wrth symud ymlaen Er fod gwaith dadansoddol mwy manwl i'w wneud ar yr ystadegau sydd wedi eu cyflwyno, ar y wyneb, dengys yr ystadegau fod symud wedi bod ers sefydlu y prosiect, a fod y 41% o swyddi ar lefel rheolaeth (Rheolwr Gwasanaeth neu uwch) bellach yn cael eu dal gan ferched, o'i gymharu â ffigwr o 30% pan sefydlwyd y prosiect.

**4.2.7** Mae Pecyn Gwybodaeth ar gyfer y prosiect wedi ei osod ar dudalennau Mewnrwyd y Prosiect a sgyrsiau wedi eu trefnu gyda Phenaethiaid Adran i drafod ystadegau eu Hadrannau unigol a sut orau i rannu'r pecyn gwybodaeth o fewn eu Hadran.

**4.3 Sicrhau Tegwch i Bawb**

**4.3.1** Er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud rhaid adnabod unrhyw rwystrau sy'n wynebu rhai pobl wrth chwilio am waith, neu dderbyn, gwasanaethau gan y Cyngor.

**4.3.2** Mae'r gwaith ar drefnu hyfforddiant wedi bod yn mynd rhagddo, a'r gobaith ydi cynnig sesiynau LHDTC+ ac Iaith Arwyddion Prydeinig i staff rheng flaen, gyda'r flaenoriaeth yn y lle cyntaf i'r gwasanaethau hynny sydd eisoes wedi gwneud cais penodol am gefnogaeth. Mae hwn yn waith sydd wedi ei glustnodi ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol, ond disgwylir y bydd y thema yn mynd rhagddo i'r flwyddyn nesaf hefyd. Mae trafodaethau ar y gweill i gynnig hyfforddiant Ymwybyddiaeth Trawsryweddol sy'n cael ei drefnu gan y Gwasanaeth Cydlyniant Cymunedol. Mae sesiynau ychwanegol o Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb wedi eu cynnig i'r Aelodau sydd heb ei wneud eto, bydd y rhain yn cael eu cynnal ym mis Chwefror. Mae'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb wedi bod ar beilot newydd cwrs gwrth-hiliaeth CLlLC.

**4.3.3** Mae'r ffurflen Asesu Effaith Cydraddoldeb, y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a'r Gymraeg electroneg wedi ei dreialu gan y swyddogion iaith a chydraddoldeb. Mae'r Gwasanaeth TG wrthi'n gwneud gwelliannau yn sgil hynny. Bydd angen gwaith pellach cyn bydd yn barod i'w beilota ymhellach.

**4.3.4** Bu oedi i'r gwaith ar geisio cael ardystiad lefel 2 y cynllun Hyderus o ran Anabledd yn ddiweddar. Mae gwaith bellach wedi ailddechrau ac ar hyn o bryd yn bwriadu ei chwblhau erbyn diwedd Mawrth 2024. Pe bai yna unrhyw lithriad pellach, yna byddai'r gwaith yn cael ei ymgorffori yn y Cynllun Cydraddoldeb newydd ar gyfer 2024/28.

**4.3.5** Mae amlinelliad o gynllun gweithredu, mewn ymateb i adolygiad cwmni'r Inclusive Employers, wedi ei ddatblygu. Mae amlinelliad o'r camau gweithredu wedi eu gosod allan mewn dogfen ymgynghorol ar amcanion cydraddoldeb 2024 – 28.

**4.3.6** Parhau mae'r gwaith o geisio sicrhau fod mwy o aelodau staff yn cwblhau'r holiadur cydraddoldeb a bydd ymgais i dargedu grwpiau penodol o staff dros y cyfnod i ddod.

**4.4 Cynllunio'r Gweithlu**

**4.4.1** Mae'r gwaith o adnabod bylchau a gweithredu'n rhagweithiol yn flaenoriaeth sydd wedi amlygu'i hun yn fwy nag erioed o'r blaen dros y cyfnod ac mae angen ymateb i'r heriau staffio sy'n wynebu nifer o wasanaethau ar draws y Cyngor. Mae rhaglen waith a cherrig milltir penodol wedi eu llunio i adnabod bylchau tymor byr, tymor canol a'r hir dymor. Mae gwaith ar y gweill i sefydlu rhaglenni gwaith manwl ar gyfer rhaglen o hyd at saith o is-brosiectau sydd yn cyfrannu i'r prosiect llawn.

**4.4.2** Cynhaliwyd ymarferiad â gwasanaeth yn yr Adran Amgylchedd yn ddiweddar er mwyn treialu dulliau cynllunio'r gweithlu. Mae bwriad i ehangu'r ymarferiad ar arferion cynllunio'r gweithlu i wasanaethau ac adrannau eraill cyn gynted â phosib.

**4.4.3** Mae 26 prentis a 15 hyfforddai proffesiynol yn derbyn cefnogaeth ar hyn o bryd. Mae 14 prentis newydd wedi eu penodi yn ogystal. Mae'r broses recriwtio ar gyfer prentisiaid a hyfforddeion ar gyfer 2024/25 eisoes wedi cychwyn.

**4.4.4** Dros yr wythnosau diwethaf cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu â disgyblion wedi eu cynnal mewn Ysgolion, gan gynnwys ysgolion Dyffryn Nantlle, y Moelwyn a Brynrefail. Yn o gystal mae staff wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau allanol gan gynnwys ffeiriau swyddi a phaneli gwybodaeth i hyrwyddo gyrfaoedd yn y Cyngor.

**4.4.5** Mae Gwefan gyrfaoedd newydd wedi ei chyhoeddi fel rhan o'r gwaith o ddatblygu delwedd y Cyngor fel cyflogwr. Mae'r adborth cyffredinol wedi bod yn dda i'r datblygiad ac adnabuwyd cyfleoedd pellach i ddatblygu'r cynnwys.

**4.4.6** Mae angen ystyried ymhellach yr amserlen bosib ar gyfer datblygu cynllun profiad gwaith a hefyd ar sut y gellir dylanwadu ar sefydliadau addysg bellach i ddatblygu'r ddarpariaeth Gymraeg sydd yna i brentisiaid a hyfforddeion.

**4.5 Hybu Defnydd o'r Gymraeg gan Drigolion Gwynedd**

**4.5.1** Bydd prosiectau penodol yn cael eu cynnal a fydd yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ac yn cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Bydd hyn yn cynnwys cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol.

**4.5.2** Mabwysiadwyd Strategaeth Iaith Gwynedd 2023-2033 gan y Cyngor llawn ar 7fed o Ragfyr, 2023, a chrëwyd rhaglen waith cychwynnol. Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn 2024 gyda phob pennaeth er mwyn ymgynghori ar gynnwys rhaglen waith y strategaeth iaith newydd.

**4.5.3** Mae holl gyllideb Prosiect 15 wedi ei wario erbyn hyn gyda chyfran sylweddol ohono wedi mynd ar gyflogi swyddog prosiect cynorthwyol i gynhyrchu cynnwys gwreiddiol Cymraeg ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol. Yn ystod y cyfnod dan sylw cyhoeddwyd fideo gan fyfyriwr meddygaeth sy'n wreiddiol o Abersoch a oedd yn sôn am ei hanes a chynhyrchwyd deunydd hefyd i gyd fynd gydag ymgyrch Defnyddia Dy Gymraeg gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Cynhaliwyd sesiwn llwyddiannus gyda phobl ifanc yng Nghlwb Ieuenctid Cymunedol Llanrug er mwyn creu fideo Cymraeg ar thema Dolig a chafwyd ymateb cadarnhaol.

**4.5.4** Mae'r gwaith o boblogi map enwau lleoedd Cyngor Gwynedd yn parhau gyda gweithdai wedi eu cynnal mewn 4 ysgol gynradd yn ystod mis Tachwedd a Rhagfyr sef Pennal, Corris, Garndolbenmaen a Borth y Gest. Yn y gweithdai trafodir tarddiad enwau llefydd a

phwysigrwydd eu parchu a'u gwarchod yn ogystal â rhoi sesiwn ymarferol sut i boblogi map enwau lleoedd. Bydd rhagor o weithdai yn cael eu cynnal yn y flwyddyn newydd.

Yn sgil gwaith ymchwil pellach ar newid enwau strydoedd mewn dwy ardal beilot mae nifer o gymhlethdodau wedi eu hamlygu sy'n golygu nad yw'n ymarferol bwrw ymlaen gyda'r agwedd yma ar hyn o bryd. O ganlyniad i hyn penderfynwyd canolbwyntio ar y cynllun gosod arwyddion ar dreflannau, pontydd a ffiniau ardaloedd a chynyddu gwelededd y prosiect. Y gobaith yw gosod arwyddion cantrefi/cymydau ar ffyrdd 'A' yn ogystal ag arwyddion Cymraeg yn Nyffryn Ogwen, Pistyll, Trefor a Chaernarfon cyn diwedd Mawrth.

Yn dilyn lobio gan swyddogion Cyngor Gwynedd mae Llywodraeth Cymru bellach wedi newid deddf a rhoi pwerau i awdurdodau lleol gymeradwyo ceisiadau am arwyddion Croeso i dref uniaith Gymraeg gan Gynghorau Tref. Rydym yn falch iawn o'r llwyddiant hwn a byddwn yn ymgysylltu gyda chynghorau tref yn y flwyddyn newydd i'w hysbysu o hyn.

**4.6 Adolygiad Strategol ar Reolaeth Iechyd a Diogelwch**

**4.6.1** Mae'r prosiect yn edrych ar reolaeth strategol iechyd a diogelwch o fewn y Cyngor a'r ffordd mae hynny yn clymu i systemau llywodraethu a pherfformiad cyffredinol. Mae'n golygu cynnal adolygiad llawn o'r system reoli yn ei chyfanrwydd.

**4.6.2** Un o'r ffrydiau gwaith allweddol ydi uwchraddio'r system TG Iechyd a Diogelwch. Yn dilyn mynd allan i'r farchnad am system feddalwedd iechyd a diogelwch corfforaethol, penderfynwyd gofyn i wasanaeth TG greu system fewnol. Hynny yn bennaf oherwydd cyfyngiadau a rhwystrau yn y drefn gyfathrebu rhwng systemau allanol a systemau mewnol eraill y Cyngor. Mae gwaith mapio sylweddol wedi digwydd ar anghenion y Gwasanaeth, a bydd y gwasanaeth TG yn cychwyn ar ddatblygu system fewnol gyda'r bwriad o gynnal peilot ac ymgynghori gyda'r Fforwm Corfforaethol ar anghenion yr Adrannau/Gwasanaethau o'r system.

**4.6.3** Mae adolygiad o hyfforddiant iechyd a diogelwch rheolwyr/arweinyddion tîm bellach wedi ei gofnodi ac yn cael ei rhannu gyda'r adrannau. Mae cyrsiau adnewyddu ychwanegol hyd at mis Rhagfyr 2024 wedi cael eu rhaglennu yn nôl yr anghenion sydd wedi eu hadnabod o'r adolygiad. Mae templed i adlewyrchu beth sydd angen ei wneud yn ymarferol i gyrraedd safonau'r model IOSH wedi ei greu, fel bod modd i adrannau symud tuag at y model integredig.

**4.6.4** Mae gwaith yn cael ei wneud i adolygu rhaglen waith prosiect iechyd, diogelwch a llesiant fel bo'r blaenoriaethau yn cyd-fynd â'r templed modelau. Cynhelir cyfarfodydd gyda bob Pennaeth Adran i drafod y modelau, yr hyn sydd i'w ddisgwyl gan eu hadran, a'r hyn sydd angen ei gwblhau gan y Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant. Bydd adroddiad yn cael ei baratoi i'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn amlinellu rhaglen waith y prosiect.

**5. Perfformiad**

**5.1** Nodir isod drosolwg o berfformiad yr Adran yn ystod y flwyddyn ariannol hyd yma. Nid oes cyfeiriad at bob un o'r gwasanaethau ond rwy'n awyddus i gadarnhau fy mod yn fodlon efo perfformiad presennol y gwasanaethau hynny na gyfeirir atynt yma.

**5.2 Cefnogol**

**5.2.1** Mae'r Gwasanaeth Cefnogol yn ymgymryd â'r gwaith o hysbysebu swyddi gwag yn y Cyngor ac yn adrodd ar gyfartaledd nifer o ddyddiau a gymerwyd i benodi i swydd o ddyddiad yr hysbyseb. Yn ystod Mis Rhagfyr hysbysebwyd 56 swydd am y tro cyntaf ac ail hysbysebwyd 9 o swyddi. Mae'r nifer swyddi sydd yn cael eu hail hysbysebu wedi gostwng i 4 hysbyseb y mis ar gyfartaledd ers Ionawr 2022

**5.2.2** Mae'r Gwasanaeth Cefnogol yn mesur y nifer dyddiau o anfon cais i fod yn derbyn canlyniad gwiriad 'DBS'. Ym mis Rhagfyr cyflwynodd y Gwasanaeth Cefnogol 148 o geisiadau i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Bu i'r DBS wedi prosesu 75%. Anfonwyd adroddiadau perfformiad o'r system DSB i'r Adrannau sydd yn cymryd nifer uchel o ddyddiau i fod yn cwblhau ceisiadau.

**5.2.3** Mae gwaith wedi ei wneud i ddatblygu'r gallu yn y system swyddi i ymgeiswyr allu cyflwyno adborth am y profiad o gwblhau ffurflen gais am swydd gyda'r Cyngor. Mae'r datblygiad yn weithredol ers tri mis ac mae adborth wedi ei dderbyn gan 502 o ymgeiswyr sydd oddeutu 60% o'r nifer sydd wedi ymgeisio am swydd ar lein gyda'r Cyngor. Roedd 96% yn hollol hapus gyda 98% yn rhoi sgôr o 4 neu fwy. Mae gwaith yn cael ei wneud i edrych ar sylwadau'r 4% er mwyn darganfod os oes gwelliannau pellach y gellir eu cyflwyno i'r system.


**5.2.4** Yn ystod mis Tachwedd a Rhagfyr mae'r Gwasanaeth Cefnogol wedi bod yn cynnal gweithdai 'Hunanwasanaeth Staff' ar gyfer staff newydd a staff sydd wedi symud rol. Mae'r sesiynau yn codi ymwbyddiaeth staff o'r ddarpariaeth hunanwasanaeth sydd ar gael iddynt ac yn rhoi cyfle iddynt ddysgu sut i'w defnyddio a hyrwyddo'r defnydd ymysg ei gwasanaethau ac adrannau.

**5.3 Cyswllt Cwsmer a Chofrestru**

**5.3.1** Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer a Chofrestru wedi dygymod yn arbennig o dan amgylchiadau anodd ac mae camau wedi eu cymryd i gryfhau capasiti'r gwasanaeth.


**5.3.2** O ran y nifer o alwadau a atebwyd yn fisol mae nifer galwadau Tachwedd a Rhagfyr yn sylweddol is na'r un cyfnod llynedd. Fel arfer, mae archebion gwastraff gardd yn agor mis Tachwedd. Ni agorwyd archebion gwastraff gardd eleni tan fis Ionawr felly mae hyn yn cyfrannu at y lefel is o alwadau yn dod mewn yn ystod Tachwedd a Rhagfyr. Yn ogystal nid yw cwsmeriaid ychwaith yn gorfod gwneud apwyntiad i fynd i'n canolfannau ailgylchu dros y Nadolig, felly mae hyn yn lleihad yn y math o alwadau sy'n cael eu derbyn.

*Nifer Galwadau atebwyd (misol):*




**5.3.3** Gan fod llai o alwadau wedi eu derbyn i'r Ganolfan Gyswllt yn ystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr roedd staff ar gael i ateb galwadau yn gynt, a llai o bobl yn gorfod ciwio cyn cael ateb. Er bod staff newydd wedi eu recriwtio i'r gwasanaeth fis Hydref, mae defnydd o staff achlysurol wedi rhoi'r gallu i'r gwasanaeth hyfforddi aelodau newydd o'r tîm yn gyflymach.

*Cyfartaledd ateb Canolfan Gyswllt (misol):*




**5.3.4** Yn ogystal gwelwyd lleihad yn y galwadau a gollwyd dros Tachwedd a Rhagfyr, hynny oherwydd bod mwy o staff ar gael i ateb galwadau ffôn.

*Nifer galwadau collwyd (misol):*





**5.3.5** Gyda llai o alwadau'n dod fewn i'r Ganolfan Gyswllt a staff newydd wedi eu penodi a'u hyfforddi roedd cyfle i fod yn monitro'r sgwrs fyw a'r defnydd o 'webchat'. Mae troi y sgwrs 'fyw' ymlaen ar y 'webchat' yn dangos fod galw gan y cwsmer am y math yma o gyfrwng a'r bwriad dros y cyfnod i ddod yw gwneud mwy o ddefnydd o'r dechnoleg yma.

**5.4 Ymchwil a Gwybodaeth**

**5.4.1** Mae digwyddiadau o wybodaeth bersonol yn cael ei ddatgelu mewn camgymeriad neu trwy amryfusedd, yn parhau i ddigwydd mewn mannau o fewn y Cyngor. Mae'r niferoedd yn

amrywiol iawn fesul mis, gyda'r cyfanswm dros y flwyddyn gyfan yn parhau fymryn yn is na llynedd (35 rhwng Ebrill - Rhagfyr eleni, o'i gymharu â 37 yr un cyfnod llynedd). Mae tua hanner yr achosion diweddar yn parhau i ymwneud ag e-byst anfonwyd i'r derbynnydd anghywir, ac yn dilyn trafodaeth yn y Panel Llywodraethu Gwybodaeth fis Tachwedd rydym yn treialu diffodd "Autocomplete" yn y system e-bost ar gyfer rhai staff, gan asesu wedyn i ba raddau mae hyn yn gwneud camgymeriadau'n llai tebygol, a'i effaith ar effeithiolrwydd gweithio.

*Nifer digwyddiadau gwybodaeth:*




**5.4.3** Mae'r Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth yn monitro ac adrodd yn rheolaidd ar ganran ceisiadau rhyddid gwybodaeth atebwyd o fewn 20 dydd gwaith. Mae perfformiad ychydig yn well na'r llynedd ond yn parhau i beri rhywfaint o bryder ac mae'r gwasanaeth yn trafod gyda rhai timau lle mae nifer uchel o geisiadau, ac arafwch wrth ateb, yn tynnu perfformiad y Cyngor i lawr. Mae'r maes yma hefyd yn derbyn sylw yn y Gweithdai Gwybodaeth sydd yn cael eu darparu ar gyfer rheolwyr ac arweinyddion tîm pob Adran ar hyn o bryd. Rhennir ystadegau fesul Aran /Gwasanaeth gyda Phenaethiaid.

**6. Sefyllfa Ariannol / Arbedion**

**6.1** Cyflwynwyd adroddiad Cyllideb Refeniw 2023/24 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2023 i'r Cabinet ar 23 Ionawr, ble rhagweld bydd yr Adran yn gorwario oddeutu £22,000 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**6.2** Ceir cyfuniad o resymau dros y gorwariant tebygol, megis pwysau cynyddol ar gyllideb benodol e.e. cwnsela a diffyg cyrraedd targed incwm ar gyfer amryw o wasanaethau.

**6.3** Cyfanswm cynlluniau arbedion ar gyfer 2023-24 yr Adran yw £275,250, gyda'r arbedion hyn eisoes wedi eu gwireddu'n llawn neu ar drac i'w cyflawni'n amserol.

**7. Sylwadau Swyddogion Statudol**

**7.1 Prif Swyddog Cyllid**

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol.

**7.2 Swyddog Monitro**

Dim sylwadau i'w hychwanegu  o safbwynt priodoldeb